# CYLCHLYTHYR RHIENI/GOFALWYR
Gwanwyn 2025

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd**

## Croeso

Croeso i gylchlythyr gwanwyn Gyrfa Cymru ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd. Yn y rhifyn hwn rydym yn cynnig gair i gall ar gyfer dysgwyr ym mlynyddoedd 9 i 12, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael addysg yr haf hwn. Byddwch hefyd yn darganfod ffeithiau diddorol am brentisiaethau, ac yn clywed gan Kian, 16 oed, a oedd yn gorfod penderfynu rhwng coleg neu brentisiaeth a sut y gwnaethom ei gynorthwyo. Yn ogystal, rydym yn falch o rannu newyddion am ein digwyddiadau diweddaraf, y Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr i gyflogwyr a lansio nodweddion newydd yn ein gêm Minecraft, CrefftGyrfaoedd.



## Llais rhieni

Mae Gyrfa Cymru yn awyddus i glywed adborth am ein gwasanaethau gan rieni a gofalwyr ledled Cymru. Gall eich barn a'ch dewisiadau ein helpu i wella a chynllunio ein gwasanaethau.


A fyddech chi'n fodlon rhannu eich adborth gyda ni? Os felly, anfonwch e-bost rhieni@gyrfacymru.llyw.cymru cyn 25 Ebrill 2025.




# Cynllunio gyrfa

## Blynyddoedd 9 a 10

Ym mlwyddyn 9, gofynnir i'ch plentyn ddewis pa bynciau y mae'n dymuno eu hastudio ym mlynyddoedd 10 ac 11.
Gall ein fideos opsiynau helpu gyda hyn:





**Fy opsiynau pwnc ↗**

**Sut mae dewis fy mhynciau? ↗**

Mae ein posteri pwnc yn annog dysgwyr i archwilio syniadau am swyddi sy'n gysylltiedig â phynciau.







**Posteri pwnc ↗**

Ym mlwyddyn 10, bydd eich plentyn yn brysur yn gweithio tuag at ei gymwysterau cyntaf. Mae hwn yn amser gwych i ddechrau meddwl am y camau nesaf. Pa opsiynau sydd ar gael ar ôl blwyddyn 11? Profiad gwaith a gweithio'n rhan amser ym mlwyddyn 10 yw un o'r ffyrdd gorau o ddeall sut beth yw gweithio mewn swydd neu ddiwydiant.

## Blwyddyn 11

Ym mlwyddyn 11, dylai eich plentyn fod wedi cael gwahoddiad i gyfweliad gyrfaoedd gyda'i gynghorydd Gyrfa Cymru. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle iddo drafod eu syniadau a chynllunio ei gamau nesaf gyda chynghorydd gyrfaoedd annibynnol a diduedd, sydd â chymwysterau proffesiynol ac a all roi cipolwg ar dueddiadau swyddi'r dyfodol a'r farchnad lafur. Mae'n syniad da siarad â'ch plentyn am ei gyfweliad gyrfaoedd a'i gefnogi gydag unrhyw bwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt.



## Blwyddyn 12

Ym mlwyddyn 12, dylai eich plentyn ddechrau meddwl am ei opsiynau ar gyfer y dyfodol. Mae tymor y Pasg yn amser perffaith i wneud ychydig o ymchwil i wahanol opsiynau a mynd i ddiwrnodau agored prifysgolion. Gallwch hefyd ddefnyddio'r amser hwn i ymchwilio i opsiynau cyllid myfyrwyr.

**Gair i gall:** Dilynwch UCAS ar y cyfryngau cymdeithasol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau trwy UCAS yw mis Ionawr bob blwyddyn, ond mae'n gynharach ar gyfer rhai cyrsiau, fel meddygaeth.

## Blwyddyn 13

Bydd disgyblion Blwyddyn 13 yn gadael yr ysgol yr haf hwn. Erbyn hyn mae'n debyg y bydd gan eich plentyn gynllun ar waith ar gyfer y cam nesaf. Cofiwch, os nad yw pethau'n mynd yn ôl y disgwyl, gall Gyrfa Cymru helpu.

## Barod am waith?

A ydyw eich plentyn yn gadael addysg yr haf hwn ac yn barod am waith? Gallwn ni helpu.

### Gall ein cynghorwyr wneud y canlynol:

- Trafod y camau nesaf – prentisiaethau, hyfforddiant, hunangyflogaeth neu gyflogaeth.
- Cynorthwyo'ch plentyn gyda'i CV.
- Rhoi cyngor ar gyfer cyfweliadau a phrosesau ymgeisio.
- Rhannu gwybodaeth am swyddi gwag
  Bwletin Swyddi | Gyrfa Cymru.



# Prentisiaethau

## A ydyw eich plentyn yn meddwl am brentisiaeth?



Mae prentisiaethau yn ffordd wych o ennill cymwysterau wrth weithio ac ennill cyflog.
Mae pedwar math gwahanol o brentisiaethau, gyda phob un yn cynnig lefelau gwahanol:

1. Prentisiaeth sylfaen
2. Prentisiaeth
3. Prentisiaeth lefel uwch
4. Prentisiaeth gradd



I gael rhagor o wybodaeth am y lefelau prentisiaeth ewch i

www.gyrfacymru.llyw.cymru/egluro-lefelau-prentisiaethau

## Sut i ddod o hyd i brentisiaeth?



Mae sawl ffordd o ddod o hyd i brentisiaethau gwag, yn cynnwys y canlynol:

- Defnyddiwch ein hofferyn chwilio am brentisiaethau
- Ymchwiliwch i gyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau
- Ewch i wefannau cyflogwyr yn uniongyrchol
- Defnyddiwch wefannau swyddi ar-lein i helpu gyda'ch chwiliad
- Ewch i ddigwyddiadau cyflogwyr a diwrnodau agored. Bydd rhai cyflogwyr yn cynnal eu diwrnodau recriwtio agored eu hunain


## I wneud cais am brentisiaeth, bydd angen y canlynol ar eich plentyn:

- CV neu ffurflen gais wedi'i hysgrifennu'n dda
- Y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth am y broses ymgeisio am brentisiaeth
- Neges e-bost eglurhaol neu lythyr eglurhaol
- Paratoi ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau

# Sut gallwn ni helpu eich plentyn

## Straeon go iawn

**Roedd Kian, disgybl 16 oed o Ystrad Mynach, yn cael trafferth penderfynu a ydoedd am fynd i'r coleg neu wneud prentisiaeth. Roedd yn awyddus i ddilyn cwrs mewn plastro ond roedd hefyd eisiau dechrau gweithio a chael profiad ymarferol.**



## Stori Kian

## Cymorth gan Gyrfa Cymru

Roedd Lisa, cynghorydd Gyrfa Cymru yn ysgol Kian, yno i helpu disgyblion i feddwl am eu llwybrau gyrfa yn y dyfodol ac archwilio opsiynau gwahanol. Ar ôl eu cyfarfod cyntaf, gofynnodd Kian am gael sesiynau un-i-un gyda Lisa.

Eglurodd Kian: "Eisteddodd Lisa gyda mi a helpodd fi i ddod o hyd i gwrs mewn plastro yn y coleg lleol. Helpodd fi gyda'r ffurflen gais hefyd."

Gyda chymorth Lisa, gwnaeth Kian gais llwyddiannus am y cwrs plastro yng Ngholeg y Cymoedd. Llwyddodd i drefnu ei amserlen fel bod cydbwysedd rhwng mynd i'r coleg a gwneud prentisiaeth gyda chwmni lleol.

Dywedodd Kian: "Roedd Lisa yn help mawr. Dangosodd hi i fi sut i ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru, siaradodd hi â fi am wahanol opsiynau gyrfa, a gwnaeth hi hyd yn oed dangos rai taflenni a sleidiau i fi am y coleg a phrentisiaethau.

"Gwnaeth hi i fi deimlo'n fwy hyderus am fy newisiadau."

***Yn dilyn cymorth gan gynghorydd gyrfa, fe wnaeth Kian gais llwyddiannus ar gyfer y cwrs plastro yng Ngholeg y Cymoedd***

## Cyngor i eraill


"Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, siaradwch â'ch cynghorydd gyrfa. Maen nhw wir yn gallu eich rhoi chi ar ben ffordd."

Kian

# Swyddi Dyfodol Cymru

Mae pum diwydiant newydd wedi'u hychwanegu at ein tudalen we Swyddi Dyfodol Cymru. Gallwch nawr archwilio gwybodaeth marchnad lafur genedlaethol a lleol ar gyfer 12 diwydiant ym mhedwar rhanbarth Cymru.


## Y pum diwydiant newydd yw:



**Swyddi mewn amaethyddiaeth a'r tir**



**Swyddi mewn addysg**



**Swyddi mewn gweithgynhyrchu**




**Swyddi mewn gwasanaethau cyhoeddus**




**Swyddi mewn twristiaeth, lletygarwch, chwaraeon a hamdden**

# Yn dod yn fuan:

Bydd y pedwar diwydiant canlynol hefyd ar gael yn fuan, gan gwblhau'r gyfres o 16 o wahanol ddiwydiannau ledled Cymru:

- **Swyddi mewn cyllid, yswiriant a'r gyfraith**
- **Swyddi mewn gwyddoniaeth ac ymchwil**
- **Swyddi mewn busnes a gweinyddu**
- **Swyddi mewn trafnidiaeth a storio**




Rydym yn croesawu eich adborth chi fel rhieni. Anfonwch eich awgrymiadau neu'ch sylwadau ar Swyddi Dyfodol Cymru atom, drwy'r ddolen BETA ar frig y dudalen we (Swyddi Dyfodol Cymru) neu anfonwch neges e-bost i gwybodaeth@gyrfacymru.llyw.cymru.

# Gweithio gyda chyflogwyr

## Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr

Mae'r Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr yn ffordd i Gyrfa Cymru gydnabod a diolch i'r busnesau sy'n gweithio gyda ni.

Bob blwyddyn, rydym yn dathlu'r gwaith y mae cyflogwyr wedi'i wneud i helpu ysgolion a phobl ifanc i ymgysylltu â'r byd gwaith.

Mae'r bartneriaeth rhwng busnesau ac ysgolion yn rhoi ysbrydoliaeth a chymhelliant i bobl ifanc. Mae gwybodaeth a phrofiadau gwerthfawr sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn helpu pobl ifanc i gysylltu'r hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ysgol â byd gwaith.

Cynhaliwyd gwobrau 2025 yn y Senedd ym mis Ionawr, ac yr oedd 36 o'r busnesau a enwebwyd yn bresennol. Cyhoeddwyd naw enillydd ar y diwrnod gan ein cyflwynydd, y newyddiadurwraig Sian Lloyd.

Roedd Jack Sargeant, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn bresennol, a dywedodd:

"Mae'r gydnabyddiaeth hon yn amlygu ymroddiad busnesau Cymru a'r effaith y maent yn ei chael wrth lunio dyfodol pobl ifanc.

"Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr ac i'r enwebeion am eu hymrwymiad i rymuso'r genhedlaeth nesaf drwy feithrin eu sgiliau, magu eu hyder, a chynnig profiadau gyrfa amhrisiadwy. Mae eich ymdrechion yn ysbrydoledig!"

Gallwch ddarllen mwy am y gwobrau a'r enillwyr ar y dudalen Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr ar ein gwefan.

Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr

"Mae'r gydnabyddiaeth hon yn amlygu ymroddiad busnesau Cymru a'r effaith y maent yn ei chael wrth lunio dyfodol pobl ifanc."

**Jack Sargeant**
Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol











# CrefftGyrfaoedd

Byd Minecraft yw CrefftGyrfaoedd sy'n cynnwys nodweddion Cymreig. Fe'i cynlluniwyd i ysbrydoli ac ysgogi plant ysgol rhwng 8 a 13 oed. Mae pob tirnod yn cysylltu â maes dysgu o fewn y cwricwlwm i Gymru neu sector gyrfa penodol.

Gall pobl ifanc archwilio tirnodau gwahanol a chwblhau heriau yn y gêm. Mae hyn yn eu hannog i feddwl am eu sgiliau, cryfderau a diddordebau eu hunain, a fydd yn eu helpu gyda'u syniadau gyrfa.

Mae Bluestone, a leolir ger Arberth, yn ychwanegiad newydd at y saith tirnod sydd eisoes o fewn byd CrefftGyrfaoedd. I ddathlu cyhoeddi'r tirnod newydd, cynhaliodd Gyrfa Cymru ddigwyddiad lansio yng nghanolfan Bluestone gyda disgyblion o Ysgol Gynradd Gymunedol Tredemel.

Dywedodd Nikki Lawrence, Prif Weithredwr Gyrfa Cymru: "Mae wedi bod yn bleser gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn Bluestone a Croeso Cymru a lansio tirnod newydd cyffrous Bluestone yn rhan o CrefftGyrfaoedd.

"Mae Bluestone yn gyrchfan wyliau eiconig. Mae'r tirnod newydd hwn yn galluogi chwaraewyr i archwilio'r diwydiant lletygarwch bywiog a darganfod y cyfleoedd o fewn y sector hwn yng Nghymru.

"Mae'n wych gweld disgyblion ysgol lleol yn archwilio nodweddion newydd CrefftGyrfaoedd, yn datblygu eu gwybodaeth am yrfaoedd ac yn ehangu eu gorwelion, a'r cyfan yn lleoliad hardd Bluestone ei hun."

Mae CrefftGyrfaoedd ar gael i bob disgybl ysgol ledled y wlad trwy Minecraft Education Edition. Gallwch ddod o hyd i'r holl fanylion ar ein gwefan.

CrefftGyrfaoedd






"Mae'n wych gweld disgyblion ysgol lleol yn archwilio nodweddion newydd CrefftGyrfaoedd."

**Nikki Lawrence,**
**Prif Weithredwr Gyrfa Cymru**



# Trefnwch apwyntiad

A oeddech chi'n gwybod ein bod ni'n cynorthwyo oedolion hefyd?Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn darparu ystod eang o gymorth yn cynnwys mynediad i hyfforddiant, uwchsgilio, cyllid, a help gydag ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad.

**Cymru'n Gweithio**
**Working Wales**


**Gallwch drefnu apwyntiad gyda chynghorydd gyrfa yma**

## Mae Cymru'n Gweithio yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd am ddim os ydych yn 16 oed neu'n hŷn.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod yr amrywiaeth o ffyrdd y gallwn eich cefnogi ar eich camau nesaf:

- **Cyngor ynglŷn â gwaith**
- **Bwletin swyddi**
- **Cymorth ar ôl colli swydd**
- **Prentisiaethau**
- **Ar ôl gadael yr ysgol**
- **Gwarant i bobl ifanc**

**www.cymrungweithio.llyw.cymru**



## Cysylltwch â ni:

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- Anfonwch neges e-bost i **post@gyrfacymru.llyw.cymru**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy gyrfacymru.com
- Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfaoedd**

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol